**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch Gyfrannol/Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education**
**Advanced Subsidiary/Advanced**

974/51

# MATHEMATEG C2

## Mathemateg Bur

A.M. DYDD LLUN, 22 Mai 2006

($1\frac{1}{2}$ awr)

### DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen:

- llyfr ateb 12 tudalen;
- Llyfryn Fformiwlâu.
- cyfrifiannell.

### CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **bob** cwestiwn.

### GWYBODAETH I YMGEISWYR

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Atgoffir chi bod angen Cymraeg da a chyflwyniad trefnus yn eich atebion.

**1.** Defnyddiwch Reol y Trapesiwm gyda phum mesuryn i ddarganfod bras werth ar gyfer yr integryn

$$\int_0^{0\cdot 4} \sqrt{1+x^4}\ \mathrm{d}x.$$

Dangoswch eich gwaith cyfrifo a rhowch eich ateb yn gywir i dri lle degol. [4]

**2.** *(a)* Darganfyddwch holl werthoedd $x$ rhwng 0° a 360° sy'n bodloni

$$\tan x = -\,0\cdot 4.$$ [2]


*(b)* Darganfyddwch holl werthoedd $x$ rhwng 0° a 180° sy'n bodloni

$$\cos 3x = \frac{1}{2}.$$ [4]

*(c)* Darganfyddwch holl werthoedd $\theta$ rhwng 0° a 360° sy'n bodloni

$$2\cos^2\theta + 3\sin\theta = 0.$$ [5]

**3.** Mae'r diagram isod yn dangos y triongl $ABC$, gydag $AB = x$ cm, $AC = 8$ cm a $B\hat{A}C = 150°$.




O wybod mai arwynebedd y triongl $ABC$ yw 10 cm$^2$,

*(a)* darganfyddwch $x$, [3]

*(b)* cyfrifwch hyd ochr hwyaf *(longest)* y triongl $ABC$, gan roi eich ateb yn gywir i ddau le degol. [3]

**4.** *(a)* Term cyntaf cyfres rifyddol yw $a$ a'r gwahaniaeth cyffredin yw $d$. Profwch y rhoddir swm yr $n$ term cyntaf gan

$$S_n = \frac{n}{2}\left[2a + (n-1)d\right].$$ [3]

*(b)* Swm ugain term cyntaf cyfres rifyddol yw 540 a swm tri deg term cyntaf y gyfres yw 1260.

(i) Darganfyddwch derm cyntaf a gwahaniaeth cyffredin y gyfres.

(ii) Cyfrifwch **50ed term** y gyfres. [6]

**5.** Mae ail derm cyfres geometrig naw gwaith pedwerydd term y gyfres.

*(a)* Darganfyddwch y gwerthoedd posibl ar gyfer y gymhareb gyffredin. [4]


*(b)* O wybod bod y gymhareb gyffredin yn bositif ac mai 12 yw swm i anfeidredd y gyfres, darganfyddwch drydydd term y gyfres. [3]

**6.** Darganfyddwch

$$\int\left(4x^{\frac{1}{3}} - 3x^{-3} + 5\right)\mathrm{d}x.$$

[3]

**7.**




Mae'r diagram yn dangos y gromlin $y = 7 + 2x - x^2$ a'r llinell $y = x + 1$ yn croestorri yn y pwyntiau $A$ a $B$.

*(a)* Darganfyddwch gyfesurynnau $B$. [4]

*(b)* Enrhifwch arwynebedd y rhanbarth sydd wedi'i dywyllu. [8]

**8.** *(a)* O wybod bod $x > 0$, dangoswch fod

$$\log_a\left(x^n\right) = n\log_a x.$$

[3]

*(b)* Datryswch yr hafaliad

$$5^{3x+1} = 6,$$

gan roi eich ateb yn gywir i bedwar lle degol. [4]

**TROSODD.**

**9.** Mae gan gylch $C$ ganol $D$ a'i hafaliad yw

$$x^2 + y^2 + 2x - 8y + 8 = 0.$$


*(a)* Darganfyddwch gyfesurynnau $D$ a radiws $C$. [3]

*(b)* Tynnir llinell trwy'r pwynt $P$ (4, 6) fel ei bod yn cyffwrdd â'r cylch $C$ yn y pwynt $T$.

(i) Dangoswch fod $PT = \sqrt{20}$.

(ii) Darganfyddwch hafaliad y cylch â chanol $P$ sy'n mynd trwy'r pwynt $T$. [5]

**10.**




Mae'r diagram yn dangos dau bwynt $P$ a $Q$ ar gylch, canol $O$ a radiws 4 cm, fel bod $P\hat{O}Q = \theta$ radian. Perimedr ac arwynebedd y **sector** $POQ$ yw $x$ cm ac $A$ cm$^2$, yn ôl eu trefn. O wybod bod $x = 3A$,

*(a)* dangoswch fod $\theta = 0{\cdot}4$, [4]

*(b)* cyfrifwch arwynebedd y rhanbarth sydd wedi'i dywyllu, gan roi eich ateb yn gywir i dri lle degol. [4]